

# Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr



**Y myth** Gwaherddir gweithwyr rhag gosod addurniadau Nadolig yn y swyddfa.

**Y gwirionedd** Lol! Bob blwyddyn rydym yn clywed am gwmnïau yn gwahardd eu gweithwyr rhag gosod addurniadau yn eu swyddfeydd am resymau 'iechyd a diogelwch', neu'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn 'cymwys' wneud y gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau gan gynnwys HSE a chynghorau lleol yn llwyddo i osod eu haddurniadau, gan ddathlu ysbryd y Nadolig yn ddi-ffwdan. Maent yn cymryd y cam synhwyrol o ddarparu ysgolion addas i'w staff i osod addurniadau yn hytrach na disgwyl i staff sefyll ar gadeiriau gydag olwynion.